# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**17 MAI 2019**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, T.A.J. Davies, J.A. Davies, K. Davies, P.M. Edwards, S.J.G. Gilasbey, E. Morgan, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, A.D.T. Speake, D. Thomas ac A. Vaughan Owen

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd J.G. Prosser, yn lle Cynghorydd T. Higgins;
Y Cynghorydd H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd;
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
R James, Swyddog Cynllunio Perfformiad a Busnes;
A. Kenyon, Uwch Swyddog Rheoli Perfformiad;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00yb - 11:05yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd T. Higgins.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2018/19

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau monitro ynghylch y gyllideb ar gyfer Gwasanaeth yr Amgylchedd, Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Gwasanaeth Diogelwch Cymunedol ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol, fel yr oeddent ar 28 Chwefror 2019, mewn perthynas â 2018/19.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnydd o £108k mewn incwm yn sgil Mabwysiadu Priffyrdd, a dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd wrthynt fod hyn yn deillio o'r ffioedd sy'n gysylltiedig â chytundebau o dan Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r ffioedd yn talu costau sy'n gysylltiedig â gwirio dyluniadau, paratoi cytundebau, arolygu'r gwaith ac ati. Nodwyd bod hyn yn berthnasol i ddatblygiadau newydd yn unig.

- Nododd yr Aelodau y costau a oedd yn gysylltiedig â Draenio Cynaliadwy. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod gan yr Awdurdod ddyletswydd, o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, i sicrhau bod materion draenio'n cael eu trin mewn modd cynaliadwy mewn perthynas â cheisiadau am ddatblygiadau newydd. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau na fyddai dŵr ychwanegol yn achosi unrhyw niwed i lawr yr afon.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch staffio, dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod yr Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn cyflogi dros 400 o staff, gan gynnwys Hebryngwyr Croesfannau Ysgol, Gweithwyr Priffyrdd a Swyddogion Gorfodi Materion Amgylcheddol. Hefyd dywedodd nad oedd y swydd Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd wedi cael ei llenwi, a bod y gwaith yn cael ei wneud yn rhannol gan y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth tra oedd adolygiad o'r strwythur ehangach yn cael ei gynnal. Cydnabuwyd bod rôl Rheolwr Traffig yn swydd allweddol yn yr adran a rhagwelwyd y byddai'r swydd yn cael ei llenwi yn ystod y misoedd nesaf.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at gostau teledu cylch cyfyng, gan nodi bod y cyfrifoldeb am hyn wedi'i drosglwyddo'n ôl i Heddlu Dyfed-Powys a gofynnwyd a oedd y camerâu teledu cylch cyfyng yn fyw ar hyn o bryd. Dywedodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth fod y camerâu teledu cylch cyfyng yn recordio, ac y byddai monitro byw yn dechrau yn yr wythnos ganlynol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD AR GYFER 2019/20

Ystyriodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

Nododd yr Aelodau fod y rhaglen yn ddogfen hyblyg yr oedd modd ei haddasu i gynnwys eitemau agenda a chyfarfodydd ychwanegol yn ystod blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Blaenraglen Waith Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ar gyfer 2019/20.**

## 6. YMESTYN GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (GORCHMYNION CWN SIR GAERFYRDDIN)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ynghylch y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Dywedwyd bod yr adroddiad yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor bob tair blynedd fel rhan o'r gwaith o adnewyddu'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Yn ôl Adran 11(B) o'r adroddiad, ni chaniateir i gŵn fynd i mewn i le chwarae caeedig i blant, a'r diffiniad o 'caeedig' yw lle sydd wedi'i amgylchynu ar bob ochr gan ffensys, gatiau, waliau a strwythurau eraill. Gofynnodd yr Aelodau a ellid ymestyn y gorchymyn i leoedd a oedd wedi'u hamgylchu ar dair ochr, gan fod sawl parc ledled y sir â lleoedd chwarae sydd wedi'u hamgylchynu ar dair ochr. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod hyn wedi'i ystyried yn ystod yr adolygiad diwethaf, ond ni ellid gweithredu'r egwyddor yn achos rhai lleoedd ac roedd yn anodd ei diffinio.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch sut yr oedd y gorchymyn yn berthnasol i gŵn gwaith ar dir amaeth lle roedd Hawl Dramwy Gyhoeddus drwy'r tir. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod cŵn gwaith wedi eu heithrio o'r Ddeddf. Hefyd eglurodd nad yw'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid cadw cŵn ar dennyn, ond bod yn rhaid eu cadw o dan reolaeth.

- Dywedodd yr Aelodau fod modd ymestyn y gorchymyn i gynnwys meysydd chwaraeon a chaeau ysgolion. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai a Diogelu'r Cyhoedd wrth y Pwyllgor y byddai cyfle yn y dyfodol i wneud diwygiadau i'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus arfaethedig a phwysleisiodd bwysigrwydd pasio'r gorchymyn cyn 3 Gorffennaf 2019. Nodwyd hefyd y byddai angen ystyried gofynion gweithredol ymestyn y gorchymyn, gan fod pedwar tîm o ddau Swyddog Gorfodi yn gweithio yn y sir ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD -**

**6.1 Bod hyd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen;**

**6.2 Bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Ymestyn i weithredu'r estyniad uchod ac yn cymeradwyo Gorchymyn 2016 â geiriad addas er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod hyd Gorchymyn 2016 wedi cael ei ymestyn.**

**6.3 bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu yn cwrdd â'r Rheolwr Gorfodi Materion Amgylcheddol i drafod rheolaethau arfaethedig yn y dyfodol.**

## 7. STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2018-23 DIWEDDARIAD DRAFFT MEHEFIN 2019

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio Perfformiad a Busnes drosolwg o'r adroddiad a dadansoddiad o'r newidiadau ers yr adroddiad blaenorol.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Ystyriodd yr Aelodau Gam Gweithredu 2 Amcan Llesiant 8, a gyfeiriodd at barhau i fonitro ansawdd aer, gan nodi nad oedd y cam gweithredu yn ymddangos yn uchelgeisiol mewn perthynas â'r uchelgais corfforaethol i ddatblygu cynllun clir ar gyfer llwybr tuag at fod yn awdurdod lleol di-garbon net cyn pen 12 mis, ac i fod yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030. Roedd yr Aelodau'n feirniadol o'r diffyg targedau penodol, ac roeddent yn annog cysoni'r targedau. Cytunwyd y dylai hyn gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol yn dilyn cyfarfod gyda'r Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyfraddau ailgylchu Sir Gaerfyrddin, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod problemau o ran gwaredu gwastraff lludw du. Dywedwyd bod sbwriel bagiau du yn cael ei anfon i ffwrdd i gael ei losgi, a bod hyn yn cael ei gyfrif fel ailgylchu, ond bod gwaredu lludw du yn dal i fod yn broblem barhaus. Dywedodd hefyd fod nifer sylweddol o ymwelwyr 'y tu allan i'r sir' wedi cael eu troi ymaith o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref o dan y cynllun newydd lle mae angen dangos prawf adnabod, ac y dylid adlewyrchu hyn yn y cyfraddau ailgylchu ar gyfer 2019/20.

- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am allyriadau cerbydau fflyd y Cyngor a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i leihau hyn. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y fflyd bresennol hanner ffordd drwy ei chylch ac mai un o elfennau allweddol y broses gaffael yn y dyfodol fyddai ystyried cerbydau electronig.  Y fflyd cerbydau priffyrdd bresennol oedd un o'r rhai mwyaf datblygedig o ran allyriadau ecsôst.

**PENDERFYNWYD yn dilyn cyfarfod gyda'r Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, y byddai'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd yn rhoi adborth i'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas ag uchelgais mwy a chysoni targedau amgylcheddol.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD cytuno ar y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Mehefin 2019.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**